



Swydd Wag Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Am beth yr ydym yn chwilio?

Mae Corff Llywodraethol ein hysgol yn cynnwys Llywodraethwyr o bob cefndir a chydag ystod o wahanol gefndiroedd, sgiliau a phrofiadau. Mae'r Corff Llywodraethol yn darparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol. Mae'n goruchwyllo perfformiad ariannol ac atebolrwydd yr ysgol, yn gosod targedau ar gyfer codi safonau cyflawniad addysgol, yn monitro cynnydd, yn cefnogi ac yn herio perfformiad, yn trafod polisi a chynlluniau datblygu yn y dyfodol ac yn arwain rheolaeth strategol safle'r ysgol. Fel y cyflogwr, mae'r Corff Llywodraethol yn recriwtio ac yn penodi pob aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol i'r ysgol. Mae'r Llywodraethwyr i gyd yn wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd yr ysgol ac maent yn gyswllt rhwng Bro Ogwr a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Fel ynadon neu aelodau o reithgor, mae gan lywodraethwyr ysgol hawl i amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer eu dyletswyddau cyhoeddus, er y gall hyn fod yn ddi-dâl ac yn ddarostyngedig i bolisiâu Adnoddau Dynol unigol.

Rydyn ni eisiau chi!

Ar hyn o bryd rydym yn dal swydd wag ar gyfer llywodraethwr cymunedol a byddem yn falch iawn o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb ym mherfformiad yr ysgol, y gallu i edrych ar faterion yn wrthrychol, profiad o weithio'n dda gydag eraill, yr hyder i ofyn cwestiynau ac ymuno mewn dadl a pharodrwydd i wrando a llunio barn wybodus. Cynhelir cyfarfodydd Llawn y Corff Llywodraethol bob tymor ar ddydd Llun rhwng 4:30pm a 6:15pm. Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd llawn, gofynnir i lywodraethwyr hefyd edrych ar feysydd penodol o waith yr ysgol yn fanylach ac efallai y gofynnir i bob llywodraethwr ymuno ag is-bwyllgor a chael maes cyfrifoldeb cyswllt a rennir. Unwaith y bydd cyfyngiadau Covid-19 yn codi, gellir cynnal rhai cyfarfodydd a digwyddiadau yn yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol arferol. Croesewir ceisiadau gan bob aelod o'r gymuned, boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr Cymraeg neu o aelwydydd Saesneg eu hiaith sydd â chred gref yn y gymuned cyfrwng Cymraeg ac ymrwymiad i'r gymuned cyfrwng Cymraeg. Mae telerau swydd llywodraethwyr yn 4 blynedd, pryd y gall y llywodraethwr cymunedol ofyn am gael tymor olynol. Disgwylir i bob llywodraethwr ddilyn y Cod Ymddygiad.

Beth allwn ni ei gynnig?

Rydym yn cynnig y cyfle i weithio gyda chymuned ein hysgol i sicrhau'r amgylchedd gorau posibl i'n dysgwyr, ymdeimlad o gyflawniad wrth wneud gwahaniaeth a chyfle i ddatblygu neu gryfhau sgiliau mewn rheolaeth strategol. Mae'n ofynnol i lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant sefydlu ac ymwybyddiaeth gorfodol a chynigir Datblygiad Proffesiynol Parhaus a chymorth mentora i helpu i adeiladu ar sgiliau presennol neu i ddatblygu rhai newydd. Mae croeso i ymgeiswyr sydd â diddordeb gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth a/neu drafodaeth anffurfiol am y rôl.

Sut i gyflwyno cais

Os hoffech gael eich ystyried i'w benodi, anfonwch e-bost at Simone Delaney, Clerc y Llywodraethwyr, yn schoolgovernancesolutions@gmail.com i ofyn am ffurflen gais, y dylid ei chyflwyno erbyn dydd Gwener 22 Hydref. Bydd ceisiadau am swyddi gwag i Lywodraethwyr Cymunedol yn cael eu clywed yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn ym mis Chwefror a chaiff y canlyniad ei gyfleu cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwn.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyhch!

Nik Dart, Cadeirydd y Llywodraethwyr